

Pwyllgor Menter a Dysgu

EL(3) 01-10 (p2) : 14 Ionawr 2010

Cyflwynwyd gan Peter McGuinness, Rheolwr Gyfarwyddwr, Severnside Recycling

1 Diben

1.1 Cyflwynir y papur hwn i Bwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel rhan o'i ymchwiliad i Greu Swyddi yn yr Economi Werdd. Diben y papur hwn yw amlinellu rôl y Sector Rheoli Gwastraff i'r Pwyllgor o ran creu economi werdd, ac yn arbennig swyddi sy'n gysylltiedig â gweithgareddau o'r fath. Bydd y papur hwn yn cyfeirio ar reoli gwastraff yng nghyd-destun technegau rheoli gwastraff cynaliadwy. Bydd yr esboniad o reoli gwastraff cynaliadwy yn cwmpasu pob gweithgaredd rheoli gwastraff cynaliadwy gan amrywio o Leihau ac Aildefnyddio Gwastraff, i Ailgylchu ac Adfer drwy amrywiaeth o dechnolegau dargyfeirio o safleoedd tirlenwi. Mae technolegau o'r fath yn amrywio o Gyfleusterau Ailgylchu Deunyddiau technoleg isel i brosesau adfer ynni megis Treulio Anerobig a throi gwastraff yn Ynni.

1.2 Bydd y papur hwn yn cynnal y farn y gall technegau rheoli gwastraff cynaliadwy, yng nghyd-destun ymrwymiad y DU i Strategaeth Wastraff Ewrop, ac wrth i ni symud i'r dyfodol, fod yn ariannol hyfyw eu hunain. At hynny, gall economi werdd ddarparu cyflogaeth gynaliadwy o fewn Sector Rheoli Gwastraff sy'n esblygu'n gyflym.

1.3 Ni ofynnir i'r Pwyllgor ystyried unrhyw gamau penodol yn y papur hwn. At hynny, mae'r papur hwn yn ceisio hysbysu'r Pwyllgor am rywfaint o ddynmeg fewnol y Sector Rheoli Gwastraff yn ystod cyfnod lle mae'r sector yn ailalinio ei hun i wynebu'r her o ddarparu mwy a mwy o dechnegau rheoli gwastraff cynaliadwy, yn lle ei waredu'n draddodiadol drwy safleoedd tirlenwi.

2 Cefndir

2.1 Mae Severnside Recycling yn gwmni ailgylchu a rheoli gwastraff integredig blaenllaw, sy'n darparu atebion i sefydliadau ledled y DU. Lleolir y Brif Swyddfa yng Nghaerffili, a cheir Cyfleuster Ailgylchu ym Medwas. Y tu allan i Gymru, mae gan Severnside 14 o Gyfleusterau Ailgylchu, sy'n ymestyn o Plymouth i Glasgow. Rhwng y Brif Swyddfa a'r Cyfleusterau Ailgylchu, mae Severnside yn cyflogi tua 600 o aelodau o staff ac mae tua 130 ohonynt yn Ne Cymru.

Mae Severnside yn rhan o DS Smith Plc, sefydliad pecynnu rhyngwladol gyda throsiant o £2 filiwn, sy'n cyflogi tua 12,000 o bobl yn fyd-eang – 5,570 yn y DU

Fel ailgylchwr ffeibr mwyaf y DU ac un o gwmnïau ailgylchu a rheoli gwastraff mwyaf blaenllaw y DU, mae Severnside yn adfer tua 1.9 miliwn o dunelli o ddeunydd bob blwyddyn drwy 15 o'i gyfleusterau ailgylchu ei hun, gan arbed dros 2.5 miliwn o dunelli o allyriadau CO₂ o safleoedd tirlenwi bob blwyddyn. Mae Severnside hefyd yn dargyfeirio tua 250,000 o dunelli o wastraff a fyddai fel arall yn mynd i safleoedd tirlenwi i dechnolegau amgen, a chydag ymrwymiad i'w gwsmeriaid i ddargyfeirio'r nifer fwyaf bosibl o wastraff o safleoedd tirlenwi, bydd y ffigur hwn yn codi bob blwyddyn.

2.2 Dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi yw'r prif duedd yn y Sector Rheoli Gwastraff. Mae tri phrif beth yn llywio hyn; Deddfwriaeth, Cyllid a Chyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol (gan gynnwys Pwysau gan Ddefnyddwyr). Mae materion amgylcheddol a gaiff eu llywio gan y cyfryngau a thrwy asiantaethau llywodraeth leol a llywodraeth ganolog wedi cyfuno i greu mwy o ymwybyddiaeth ymhlith defnyddwyr, ac mae hyn wedi arwain at bolisiau Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol cadarnach o lawer. Mae'r ddau beth cyntaf a nodir uchod, sef Deddfwriaeth a Chyllid, yn gysylltiedig yn gynhenid. Mae deddfwriaeth, naill ai drwy gyfarwydddebau cyffredin, megis y Gyfarwydddeb Tirlenwi, neu drwy reoliadau arbenigol, megis Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff (WEEE) neu Sgîl-gynhyrchion Anifeiliaid (ABP), yn cyfuno i wneud arferion llai cynaliadwy (megis Tirlenwi) yn ddrutach (ac yn

anghyfreithlon mewn llawer o achosion), tra'n annog arferion mwy cynaliadwy. Yn sgîl y cynnydd mewn costau gwaredu i safleoedd tirlenwi i tua £130/£140 erbyn 2011, mae'r diwydiant yn ceisio datblygu llwybrau mwy cynaliadwy ar gyfer mwy a mwy o lifoedd gwastraff.

Fodd bynnag, mae cwmnïau rheoli gwastraff traddodiadol yn parhau i fuddsoddi'n helaeth mewn safleoedd tirlenwi sy'n llywio eu strategaethau busnes. Mae hyn yn amharu ar y gwaith o ddatblygu seilwaith gwell ar gyfer dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi.

O ystyried hyn, dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, mae'n debygol y bydd cryn dipyn o'r diwydiant yn cyfuno a gallai llawer o'r prif gwmnïau wahanu i ddau fath o sefydliad; Perchenogion Cyfleusterau a Pherchenogion Trafnidiaeth.


Gan fod cyfraddau tirlenwi yn debygol o godi yn sgîl cynnydd mewn trethi a chostau gweithredu, mae'n bosibl y daw dewisiadau rheoli gwastraff cynaliadwy amgen yn fwy deniadol ac yn fwy hygyrch. Mae sefydliadau mawr boed yn y Sector Cyhoeddus neu'r Sector Preifat yn gallu cael gafael yn gynyddol ar ffyrdd cynaliadwy o waredu eu holl wastraff. Yn draddodiadol, mae hyn wedi bod yn haws o ran deunyddiau sych y gellir eu hailgylchu megis cerdyn a phapur. Yn fwy diweddar, mae'r DU wedi gwella'r rhwydwaith o gyfleusterau i ymdrin â llifoedd gwastraff eraill yn amrywio o ddeunyddiau plastig i ddeunyddiau sych cymysg y gellir eu hailgylchu i wastraff organig a gweddilliol. Fodd bynnag, mae'r rhwydwaith cynyddol hwn wedi datblygu ar gyflymderau gwahanol mewn rhanbarthau daearyddol gwahanol.

Mae'r tabl isod yn nodi costau opsiynau trin gwastraff amrywiol dros y pum mlynedd nesaf. Wrth i fwy o lwybrau cynaliadwy ddod yn fwy costeffeithiol, bydd mwy o sefydliadau yn gallu dewis opsiynau cynaliadwy amgen – gan gyfrannu at sefyllfa lle y gall y Sector Rheoli Gwastraff ddarparu swyddi gwyrdd heb gymhorthdal.

Yn y tabl, mae MBT yn cyfeirio at Driniaeth Fiolegol Fecanyddol, enghraifft o dechnoleg i ymdrin â llifoedd gwastraff gweddilliol. Mae

technoleg Adfer Organig yn cyfeirio at doreth o dechnolegau prosesu organig amrywiol megis Treulio Anerobig.

Tybir y bydd sefydliadau yn parhau i ddefnyddio llifoedd ailgylchu deunyddiau sych gymaint â phosibl, fel y bu'r duedd dros y pum mlynedd diwethaf.



Price	Pris
MBT	MBT
Year	Blwyddyn
Landfill	Tirlenwi
Organig Recovery Tech	Technoleg Adfer Organig

3 Crynodeb / Argymhellion

3.1 Gall cymorthdaliadau a mentrau i annog sefydliadau i fynd ar drywydd technegau rheoli gwastraff mwy cynaliadwy fod yn ffordd bwysig o helpu i ddatblygu rhwydwaith ailgylchu ac adfer. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod rhwydweithiau o'r fath yn gwbl gynaliadwy, o ran hirhoedledd yn ogystal ag effaith amgylcheddol, mae angen i ni sefydlu'r dilysrwydd ariannol i sefydliadau sy'n dewis opsiynau amgen yn lle safleoedd tirlenwi ac opsiynau mwy cynaliadwy yn gyffredinol. Ar ôl i ni wneud hyn, gallwn sefydlu economi werdd barhaol sy'n annibynnol yn ariannol ac felly'n cefnogi ei swyddi ei hun.

3.2 Dyma'r model sy'n sail i lwyddiant Severnside Recycling. Mae ein twf parhaus yn deillio o'r gallu i ddod o hyd i atebion rheoli gwastraff cynaliadwy a'u darparu i'n cwsmeriaid – am bris sydd o leiaf yn gystadleuol ag atebion traddodiadol, megis dibyniaeth ar safleoedd tirlenwi. Mae'r cynnydd diweddar mewn cyfraddau treth tirlenwi wedi bod yn ffactor pwysig yn hyn o beth. Mae'r buddsoddiad mewn opsiynau amgen yn lle safleoedd tirlenwi a'r gwaith o'u datblygu gan Severnside a sefydliadau eraill yn y Sector Rheoli Gwastraff sydd â strategaeth i ddarparu atebion rheoli gwastraff cynaliadwy, wedi bod yn ffactor pwysig arall.

3.3 Wrth gyfeirio'n benodol at y Sector Cyhoeddus a'n profiad uniongyrchol o ymdrin â deunyddiau Awdurdodau Lleol, byddem yn argymhell y dylid rhoi pwyslais ar ansawdd y deunydd a gesglir yn y ffynhonnell. Gall hyn fod yn wir am unrhyw lif gwastraff y bwriedir ei brosesu'n gynaliadwy, ond cynhyrchion â sail ffeibr papur a gesglir i'w hailgylchu yw ein maes penodol o arbenigedd. Mae'r gallu i gynhyrchu cynnyrch o safon uchel i'w ailgylchu mewn melinau papur yn dibynnu ar wahanu'r deunydd yn dda yn y man casglu. Mae casgliadau cymysg yn arwain at brosesau dethol eilaidd hir a drud, ac erbyn hynny mae'n anochel y bydd yr ansawdd wedi gostwng. Unwaith yr effeithir ar ansawdd, gall gwerth y deunydd ostwng hefyd. Mae i hyn sgîl- effeithiau, a gall beryglu'r model ariannol ar gyfer cynnal casgliadau o'r fath. Mae hyn yn cyd-fynd â'r safbwynt a wneir yn y papur hwn sef mai'r ffordd orau o greu swyddi gwyrdd parhaol yw canfod y ffordd orau o wneud technegau rheoli gwastraff cynaliadwy yn ariannol hyfyw.